**ASTUDIAETH ACHOS**
GWASTRAFF ADEILADU

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES



# Nwy Naturiol Hylifedig (LNG) South Hook *Aberdaugleddau, Sir Benfro*

*Adfywio ardaloedd storio hen burfa olew gan ailgylchu deunyddiau i greu llwybrau newydd mewn ac allan o'r safle.*

**Mae South Hook LNG yn un o derfynellau mwyaf Ewrop. Gall drin 15.6 miliwn tunnell y flwyddyn o nwy naturiol hylifedig LNG a throsglwyddo hyd at 21 biliwn metr giwbig y flwyddyn o nwy i'r Rhwydwaith Dosbarthu Cenedlaethol –tua 20% o ofynion Nwy Naturiol presennol y Deyrnas Unedig.**

Cwblhawyd y prosiect mawr hwn yn 2010. Yn ei anterth, roedd 2500 o weithwyr ar y safle a rhoddwyd y flaenoriaeth uchaf i ystyriaethau amgylcheddol a chyswllt â'r gymuned. Gofynnwyd i Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) weithio gyda thîm South Hook LNG i'w cynghori ynglŷn â'r arferion gorau ac ynghylch gwaredu'r holl goncrid a ddeilliai o ddymchwel y purfeydd segur a gafodd eu digomisiynu ac a oedd yn ffurfio rhan sylweddol o'r safle.

Roedd lleoliad daearyddol y prosiect yn ystyriaeth bwysig dros ben gyda'r tîm dymchwel yn sylweddoli effaith negyddol cludo gwastraff adeiladu a dymchwel ar draws milltiroedd o ffyrdd gwledig at yr hybiau ailgylchu agosaf.

## MANYLION Y PROSIECT

**Terfynell Nwy Naturiol Hylifedig (LNG) South Hook yn Aberdaugleddau, Sir Benfro. Adfywio tir ac adfer llwybrau mynediad.**




**Themâu Arfer Gorau:**
- Lleihau gwastraff ac ailgylchu

## TÎM Y PROSIECT

**Cleient:** Cwmni South Hook LNG Terminal Company Ltd

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL

**Paul Jennings, CEWales**
paul.jennings@cewales.org.uk



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



Cydweithiodd tîm CEW ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn agos gyda thîm South Hook i'w gwneud yn ymwybodol o wahanol ffyrdd o ddefnyddio'r gwastraff. Ystyriwyd nifer o bosibiliadau cyn rhoi cefnogaeth i gynllun y tîm prosiect mewnol i brofi deunyddiau gyda golwg ar eu hailddefnyddio yn y fan a'r lle i sefydlogi llwybrau cerdded ar draws y safle ac mewn ardaloedd storio ar gyfer adeiladau newydd. Arbedodd y prosiect yr angen i gludo tua 40,000 tunnell o rwbel a gwastraff i safleoedd tirlenwi. Yr un pryd, gostyngwyd yr ôl troed carbon trwy hepgor yr angen i gludo deunyddiau ymaith o'r safle.


Mae'r prosiect ailgylchu pwysig hwn yn dangos sut y gall cynlluniau adfer mawr eraill weithredu mesurau cynaliadwy o fewn eu safleoedd er mwyn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Meddai Paul Jennings Cyfarwyddwr Rhaglen Wastraff Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW):

*"Roedd yn bwysig dros ben i gwmni South Hook LNG Terminal Company Ltd eu bod yn gwarchod yr amgylchedd a gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned leol yn Sir Benfro.*

*Braf gweld eu bod wedi llwyddo i warchod yr amgylchedd, lleihau gwastraff ac ailgylchu deunyddiau drwy feddwl a gweithredu mewn ffyrdd arloesol."*







Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru
2il Lawr, Cwrt Longcross / 47 Heol Casnewydd / Caerdydd CF24 0AD
T: 029 20 493322   F: 029 20 493233
E: info@cewales.org.uk

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES